Gwrando ar Ddysgwyr

Tŷ Dysgu 14/12/2005

Cafodd Cynhadledd ddwyieithog Cynghorau Ysgolion Rhondda Cynon Taf ei chynnal yn Nhŷ Dysgu, Nantgarw ddydd Mercher 14 Rhagfyr.

Dyma'r gynhadledd gyntaf ar gyfer aelodau o gynghorau ysgolion uwchradd Rhondda Cynon Taf. Byddwn ni'n cynnal cynhadledd ar gyfer cynghorau ysgolion cynradd ac arbennig yn hwyrach yn y flwyddyn. Mae'r camau yma'n rhan o'n hymroddiad i ateb her Llywodraeth y Cynulliad i'r ysgolion a'r AALlau i 'Wrando ar Ddysgwyr'. Mae Cylch Gwella Safonau'r Ysgolion, sy'n cynnwys penaethiaid, swyddogion yr AALl ac ymgynghorwyr yn trefnu'r cynadleddau. Byddwn ni'n cynnal y gynhadledd bob blwyddyn a chynghorau'r ysgol fydd yn penderfynu ar y themâu a threfn y diwrnod yn y dyfodol.

Anfonodd 12 ysgol (Ysgol Gyfun Aberdâr y Merched, Ysgol Gyfun Blaen-gwawr, Ysgol Gyfun Bryncelynnog, Ysgol Gyfun Glynrhedynog, Ysgol Gyfun y Ddraenen Wen, Ysgol Gyfun Gymraeg Llanhari, Ysgol Sir Cymuned y Porth, Ysgol Uwchradd Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru, Ysgol Gyfun Rhydfelen, Ysgol Gyfun Rhyd-y-waun, Ysgol Gyfun Tonypandy, Ysgol Gyfun Tonyrefail ac Ysgol Gyfun Treorci) gynrychiolwyr i'r gynhadledd. Cafodd y cynrychiolwyr drafodaeth fywiog am eu profiadau dysgu cadarnhaol a cheisio nhw bennu dylanwadau effeithiol ar eu haddysg, boed y rheini'n gysylltiedig â thopig neu bwnc, strategaethau addysgu, dulliau dysgu neu amgylchedd dysgu.

Prif siaradwyr y gynhadledd oedd aelodau Carfan Dadlau Ysgolion Cymru (Steffan Powell, Harry Thomas a Beth James) a fydd yn cynrychioli'r wlad yn Rownd Derfynol Pencampwriaeth Dadlau Ysgolion y Byd yn Montreal, Canada, a Katarina Kopajova, gwestai arbennig o Garfan Dadlau Ysgolion Slovakia. Helen Jarman un o gyn ddisgyblion Ysgol Gyfun Llanhari a myfyriwr ôl-radd ym maes Seicoleg ym Mhrifysgol Caerdydd a gadeiriodd y gynhadledd.

Thema'r gynhadledd oedd **Dysgu**. Siaradodd y sawl a oedd yn cyflwyno am yr hyn a oedd wedi bod o gymorth iddyn nhw i ddysgu. Clywon ni sut llwyddodd brwdfrydedd ac ymroddiad athrawon unigol i annog dysgu ynghyd ag effaith gadarnhaol cwrdd â chyn ddisgyblion yn rhan o broses cynllunio gyrfa a phennu nodau personol. Canmolodd y siaradwyr gyfraniad gweithgareddau allgyrsiol i'w haddysg, megis cynyrchiadau ysgol, gwibdeithiau, sioe gerdd yr ysgol, carfan dadlau ac aelodaeth o fand roc. Roedd y rhain yn gymorth i feithrin medrau rheoli amser, ymroddiad, medrau canolbwyntio, medrau gweithio'n rhan o garfan a datblygiad personol a'r cyfan oll yn hyrwyddo dysgu'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.

Roedd uwch swyddogion Rhondda Cynon Taf, ymgynghorwyr, staff y brifysgol, swyddogion materion osgoi troseddau'r ysgolion ac athrawon yn rhan o'r gynulleidfa. Dyma ddetholiad o sylwadau'r gynulleidfa a'r cynrychiolwyr:-

"Roedd hi'n ddiddorol gwrando ar farn y siaradwyr ond mwynheuais i roi fy marn i hefyd."

"Dysgais i lawer."

"Rydw i'n benderfynol o deithio fel y ferch o Solfacia a siaradodd. Roedd ei Saesneg hi'n wych."

"Roedd y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn wych."

"Mae cynifer o syniadau da gyda'r bobl ifainc. Maen nhw'n gwybod be sy ei angen arnyn nhw o ran eu haddysg."

"Agoriad pwysig a llwyddiannus i raglen 'Gwrando ar Ddysgwyr."

Argymhellion

Gofynnwyd i gynrychiolwyr drafod y materion hynny a ddylanwadodd yn gadarnhaol ar eu haddysg. Dyma grynodeb o argymhellion y cylch:-

Yr Awyrgylch Dysgu

Roedd disgyblion o'r farn eu bod nhw'n dysgu orau mewn awyrgylch sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda, wedi'i awyru'n briodol, yn gynnes, yn ddestlus ac yn addas ar gyfer y gwaith dan sylw. Mae arddangosfeydd yn gymorth i gynyddu hunan hyder y disgyblion os ydyn nhw'n arddangos arfer dda disgyblion a'u gwaith rhagorol. Roedd amrywiaeth o gyfleusterau'n bwysig – roedd ystafelloedd tawel a digon o le ynddyn nhw'n hanfodol. Nododd y disgyblion fod cyfleusterau TGCh yn bwysig o ran gofalu ei bod hi'n hawdd cyrchu adnoddau dysgu a gwella ansawdd y dysgu. Roedd trefniadau eistedd yn bwysig hefyd gan fod trefniadau priodol yn fodd o ofalu bod pawb yn cael yr un cyfle i fanteisio ar addysg ynghyd â rhoi statws cyfartal i bob disgybl. Mae eistedd mewn grŵp yn briodol ar brydiau ond nid bob amser. Rhaid bod trefnau clir o ganlyniadau yn gefn i drefnau disgyblu a'r rheiny'n cael eu gweithredu yn sgîl ymddygiad amhriodol. Byddai cynnal y gwasanaeth yn y bore yn fodd o sefydlu'r diwrnod ysgol ac yn fwy buddiol na'i gael ar ddiwedd y prynhawn i gloi'r diwrnod. Rhaid ail feddwl prydau amser cinio – y cam cyntaf fyddai cynnig prydau mwy iachus. Da o beth fyddai manteisio ar ragor ar weithgareddau y tu allan i'r dosbarth / yr ysgol i gyfoethogi profiadau dysgu. Pwysleisiodd rhai cynrychiolwyr fod yr amgylchedd dysgu'n cwmpasu tir yr ysgol i gyd, amgueddfeydd a chanolfannau tebyg, Aberogwr, Bannau Brycheiniog, Gwersyll yr Urdd Llangrannog, Ffrainc, canolfannau ymwelwyr, profiadau addysgol a'r cyfle i drafod â phobl o bob lliw a llun.

Y Cwrícwlwm

Rhaid ceisio taro cydbwysedd gwell rhwng statws a gofynion gwaith Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4: mae'r cyntaf i'w weld yn ddibwrpas a'r ail yn rhy brysur o lawer. Nododd y cynrychiolwyr fod meithrin medrau yn fwy pwysig na chynnwys y maes llafur ac mai dulliau dysgu ac addysgu oedd yr allwedd i brofiadau dysgu llwyddiannus yn hytrach na chynnwys y maes llafur. Pwysleisiodd y cynrychiolwyr bwysigrwydd gwella ansawdd cwrícwlwm TGCh. Y pwyslais ar hyn o bryd ydy meithrin medrau TGCh sylfaenol drwy eu hymarfer nhw'n rheolaidd. Byddai'n well sefydlu rhaglen fwy uchelgeisiol sy wedi'i strwythuro. Nododd y cynrychiolwyr y bydden nhw'n hoffi meithrin medrau bywyd bob dydd megis trafod arian.

Roedd cynrychiolwyr yn awyddus bod athrawon yn pwysleisio perthnasedd gwaith sy'n cael ei gyflawni yn ystod gwersi Hanes ac Addysg Grefyddol. Mae'r pynciau yma'n berthnasol i fywydau pobl ifainc ond byddai rhagor o ddisgyblion yn fwy brwd ynglŷn â'r pynciau yma petai manteision astudio pynciau o'r fath yn cael eu pwysleisio.

Dylid defnyddio enghreifftiau o'r byd go iawn i egluro cysyniadau lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Roedd cynrychiolwyr yn awyddus i ad-drefnu pynciau traddodiadol yn feysydd astudio ehangach e.e. astudiaethau'r dyniaethau yn hytrach na hanes, daeryddiaeth ac AG. Rhaid pennu'r hyn mae'r disgyblion

wedi'i ddysgu'n barod cyn penderfynu ar gynnwys y cwrícwlwm ar gyfer pob dosbarth. Nododd llawer o ddisgyblion eu bod nhw'n gwneud yr un gwaith ddwywaith heb fod eisiau gwneud hynny. Cytunodd pawb fod hynny'n arbennig o wir mewn perthynas ag obsesiwn adrannau hanes â Rhyfel yn yr Ugeinfed Ganrif. Nododd cynrychiolwyr bod ysgolion yn gwastraffu cyfle o ran gwersi ABCh a bod y gwersi'n cael eu dysgu gan athrawon sy ddim yn ymddiddori yn y pwnc.

Profiadau Dysgu

Nododd y cynrychiolwyr fod arbrofion mewn gwersi gwyddoniaeth yn brofiadau dysgu cadarnhaol gan fod cyfle i ddysgu drwy arbrofi a gwaith ymarferol. Rhaid bod cyfle i weithio'n rhan o grŵp, mewn parau ac yn annibynnol. Pwysleisiodd y disgyblion bwysigrwydd amrywiaeth o ran grwpio gan fod gwahanol ddulliau yn berthnasol i wahanol heriau. Mae dysgu trwy gyfrwng chwarae rhan a drama yn fodd effeithiol o ddysgu. Roedd cynrychiolwyr eisiau gwybod y rhesymau y tu ôl i'r hyn sy'n digwydd yn hytrach na gwybod yr hyn sy'n digwydd yn unig. Mae hiwmor a hwyl yn fodd o feithrin profiadau dysgu cofiadwy ynghyd â brwdfrydedd, bywiogrwydd ac anffurfioldeb achlysurol o fewn awyrgylch ffurfiol. Mae disgyblion yn fwy tebygol o ddysgu os bydd yr athro'n esbonio sut yn union bydd y profiad yn berthnasol iddyn nhw ac yn cysylltu'r wybodaeth â heriau'r byd go iawn. Mae'r gallu i fanteisio ar adnoddau TGCh modern, offer soffistigedig, Addysg Uwch a chyfleoedd teithio addysgiadol yn gymorth i gryfhau profiadau dysgu. Bydd cyfleoedd i fanteisio ar gynlluniau carlam yn eich pynciau gorau, hyfforddi unigol mewn meysydd gwan ac / neu sesiynau mentora oddi wrth ddisgyblion mwy galluog yn fodd i ysgogi disgyblion. Dylai dysgu fod yn broses ddwyffordd. Awgrymodd y cynrychiolwyr fod modd rhoi anogaeth i ddisgyblion i gymryd cyfrifoldeb dros eu haddysg – hyd yn oed rhoi cyfle iddyn nhw i roi cyflwyniad i ddosbarth, grŵp neu unigolyn (mae paratoi cyflwyniad rhaglen PowerPoint yn gymorth mawr ichi i ddysgu). Nododd y cynrychiolwyr bod meithrin perthynas dda â'r athro, ei edmygu, ei barchu a'i werthfawrogi yn fodd o hyrwyddo profiadau dysgu effeithiol.

Technegau a dulliau addysgu

Rhaid i athrawon arfer awdurdod ond peidio â bod yn awdurdodaidd. Mae brwdfrydedd a bywiogrwydd yn fodd o feithrin diddordeb y disgyblion yn y pwnc Bydd yr athrawon gorau yn dod â'r disgyblion yn rhan o'r wers; byddan nhw'n gofalu bod disgyblion yn cyd-dynnu ag amcanion yr addysgu yn hytrach na'u gwthio nhw i ryw gyfeiriad arbennig ac yn annog disgyblion i drafod a chyfrannu a chymryd cyfrifoldeb dros eu haddysg. Bydd yr athrawon gorau'n rhoi cymorth i'r unigolyn ac i'r dosbarth cyfan, cynllunio addysg y dosbarth ac yn codi'i ddisgwyliadau. Byddan nhw rhoi adborth ymarferol i ddisgyblion ac yn gwobrwyo cynnydd drwy gydnabod y cynnydd hwnnw. Bydd yr athrawon gorau'n broffesyddol eu hagwedd ond bydd eu personoliaeth yn lliwio'u gwaith. Byddan

nhw'n meistroli'r dechnoleg newydd sy ar gael ac yn defnyddio adnoddau TGCh megis rhaglen PowerPoint a bwrdd gwyn rhyngweithiol pan fydd galw am hynny. Bydd yr athrawon gorau'n defnyddio amrywiaeth o dechnegau addysgu ac adnoddau i ofalu bod gwersi'n gofiadwy. Byddan nhw'n cydlynu llwyth gwaith y disgyblion a chynnwys y gwersi drwy drafod gyda'r athrawon eraill er mwyn osgoi gwneud yr un gwaith ddwywaith a gormod o ddyddiadau olaf ar gyfer cyflwyno yn syrthio ar yr un pryd. Bydd yr athrawon gorau'n arwain trwy esiampl, yn ymddwyn mewn modd cadarnhaol ac yn meithrin perthnasau â phobl ar sail parch. Byddan nhw'n rhoi anogaeth i ddisgyblion i fod yn annibynnol, yn addysgu medrau dysgu a bod ynglŷn â gweithgareddau ôl oriau ysgol. Bydd yr athrawon gorau'n amyneddgar ac yn hapus i bobl eu holi nhw ynghyd â holi pobl eraill. Byddan nhw'n defnyddio strategaethau anarferol megis gwahodd gwestai fydd yn cymell ac ysbrydoli'r disgyblion megis chwaraewyr Gleision Caedydd / Cardiff City neu gynnal sesiynau ymlacio ar ddiwedd gwersi. Bydd yr athrawon gorau'n annog disgyblion i gymryd rhan ym mywyd ehangach yr ysgol. Byddan nhw'n defnyddio agweddau gwreiddiol o'u personoliaethau yn effeithiol weithiau. Mae myfyrwyr ac athrawon cyflenwi'n cael trafferth i gynnal yr uchod gan fo'r rhan fwyaf o'r rhain yn dibynnu ar berthynas effeithiol sy'n sail i ddysgu.

Roedd y gynhadledd yn llwyddiannus iawn a bydd disgyblion yr ysgolion a ddaeth i'r achlysur yn elwa o'r profiad. Bydd yr ysgolion i gyd a'r partneriaethau strategol perthnasol yn cael copi o'r adborth. Bydd yr adroddiad yn cael ei ddefnyddio'n dystiolaeth wrth baratoi ar gyfer Cynlluniau Byd Addysg y genhedlaeth nesaf.

Steve Lamb, 23 Rhagfyr 2005.